

This document is available in Welsh. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.



CANLLAW BYR I REOLAU A GWEITHDREFNAU ACHOSION MYFYRWYR AR GYFER MYFYRWYR SY'N ASTUDIO MEWN SEFYDLIADAU PARTNER

Cyflwyniad

Fel myfyriwr Prifysgol De Cymru sy'n astudio mewn un o'n sefydliadau partner, efallai y bydd angen i chi, yn ystod eich astudiaethau, gael mynediad at ein rheoliadau a'n gweithdrefnau ar gyfer achosion myfyrwyr. Mae'r cyfrifoldeb dros ddelio â phob maes o achos myfyrwyr yn wahanol i'r hyn sydd ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch yn y Brifysgol. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb byr o'r rhaniad cyfrifoldebau rhwng y Brifysgol a'ch sefydliad.

Apelau Academiaidd

Mae myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau prifysgol mewn sefydliad partner yn ddarostyngedig i Reoliadau a Gweithdrefn Apelau Academiaidd y Brifysgol:

<https://www.southwales.ac.uk/cy/y-cofrestrfa-academaidd/rheoliadau-myfyrwyr/apeliadau-academaidd/>

Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â'ch sefydliad gydag unrhyw ymholiadau ynghylch eich canlyniadau ac i gael cyngor ar apelau academiaidd. Sylwch fod yr amserlenni'n eithaf byr, felly mae'n bwysig eich bod yn gwneud hyn mewn pryd.

Cwynion Myfyrwyr

Os yw'ch cwyn yn ymwneud â mater academiaidd, megis y cwrs neu'r ddarpariaeth addysgu, mae Rheoliadau a Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr y Brifysgol yn berthnasol:

<https://www.southwales.ac.uk/cy/y-cofrestrfa-academaidd/rheoliadau-myfyrwyr/cwynion-myfyrwyr/>

Sylwch fod ein gweithdrefn yn mynnu eich bod yn codi'ch pryderon gyda'ch sefydliad yn y lle cyntaf. Bydd y sefydliad yn ceisio datrys eich problemau, ond mae gennych yr hawl o hyd i gyflwyno cwyn ffurfiol os ydych yn dal yn anfodlon â'u hymateb.

Os yw'ch cwyn yn ymwneud â mater sydd yn gyfrifoldeb eich sefydliad, er enghraifft gwasanaethau cymorth myfyrwyr neu gyfleusterau, yna bydd angen i chi ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r sefydliad. Fodd bynnag, mae gennych yr hawl i gyflwyno cais am adolygiad i'r Brifysgol os ydych yn parhau'n anfodlon ar ôl i'r sefydliad ystyried eich cwyn.

Mae'r tabl isod yn manylu ar y meysydd cyfrifoldeb ym mhob cam o'r broses:

This document is available in Welsh. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

Cam y gŵyn	Materion academiaidd ¹	Gwasanaethau sy'n gyfrifoldeb ar y Sefydliad Partner
Datrys Cynnar (Cam 1)	Sefydliad Partner	Sefydliad Partner
Cam Ffurfiol (Cam 2)	Prifysgol	Sefydliad Partner
Cam Adolygu (Cam 3)	Prifysgol	Prifysgol
Cam OIA	Prifysgol	Prifysgol

Cam Ymddygiad Academiaidd Anaddas

Mae myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau prifysgol mewn sefydliad partner yn ddarostyngedig i Reoliadau a Gweithdrefn Uniondeb Academiaidd y Brifysgol:

<https://www.southwales.ac.uk/cy/y-cofrestrfa-academiaidd/rheoliadau-myfyrwyr/camymddwyn-academiaidd-a-uniondeb-academiaidd/>

Ymddygiad Myfyrwyr

Mae myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau prifysgol mewn sefydliad partner yn ddarostyngedig i reoliadau a gweithdrefn ddisgyblu'r sefydliad partner eu hunain.

Addasrwydd i Ymarfer

Mae myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau prifysgol mewn sefydliad partner yn ddarostyngedig i Reoliadau Camymddwyn Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer y Brifysgol a'r Polisi a'r Gweithdrefnau cysylltiedig:

<https://www.southwales.ac.uk/cy/y-cofrestrfa-academiaidd/rheoliadau-myfyrwyr/addasrwydd-i-ymarfer/>

Amgylchiadau Eithriadol

Mae myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau prifysgol mewn sefydliad partner yn ddarostyngedig i Reoliadau a Gweithdrefn Amgylchiadau Eithriadol y Brifysgol:

<https://www.southwales.ac.uk/cy/y-cofrestrfa-academiaidd/rheoliadau-myfyrwyr/amgylchiadau-esgusodol/>

Cymorth i Astudio

Mae myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau prifysgol mewn sefydliad partner yn ddarostyngedig i Weithdrefn Cymorth i Astudio'r Brifysgol:

<https://www.southwales.ac.uk/cy/y-cofrestrfa-academiaidd/rheoliadau-myfyrwyr/cymorth-i-astudio/>

¹ Ar gyfer cwynion a wneir i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru sy'n ymwneud â materion Academiaidd, bydd y gŵyn yn cael ei hystyried gan y Coleg ar gyfer Camau 1 a 2. Bydd y Brifysgol yn ystyried y gŵyn ar gyfer Cam 3.